# CAPITA

# Polisi ar gyfer

# Erlyniadau Trwyddedu Teledu

# CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | PWRPAS | 4 |
| 2. | HYD A LLED | 4 |
| 3. | CYFRIFOLDEB | 5 |
| 4. | Y CÔD AR GYFER ERLYNWYR Y GORON | 5 |
| 5. | Y PENDERFYNIAD I ERLYN | 6 |
| 6. | Y PRAWF TYSTIOLAETHOL | 6 |
| 7. | PRAWF BUDD Y CYHOEDD | 7 |
| 8 | PENDERFYNIAD Y TU ALLAN I’R LLYS | 8 |

## 1 Pwrpas

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw disgrifio'r ffactorau i'w hystyried wrth bennu mewn unrhyw achos Trwyddedu Teledu a ddylai achos o drosedd gael ei gychwyn neu ei adrodd wrth yr awdurdod priodol, fel y bo'n briodol.

1.2 Mae'r broses erlyn, a sut i osgoi erlyniad, yn cael eu hamlinellu yng Nghôd Erlyn Trwyddedu Teledu. Mae Côd Erlyn Trwyddedu Teledu (na ddylid ei gymysgu â'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron y cyfeirir ato yn adran 4 isod) i'w gael ar wefan Trwyddedu Teledu. Mae'r côd yn cynnwys gwybodaeth am y prosesau erlyn yng Nghymru a Lloegr (a allai fod yn wahanol mewn awdurdodaethau eraill y mae Trwyddedu Teledu yn gweithredu oddi mewn iddynt). Mae'n disgrifio hefyd sut y gall person[1] osgoi erlyniad ac mae'r wybodaeth hon yn gymwys i bob awdurdodaeth. Ceir rhagor o fanylion yn adran 8 isod.

## 2 Hyd a lled

Mae'r ddogfen yn disgrifio'r polisi i'w ddilyn gan staff Capita sy'n ymwneud ag erlyniadau Trwyddedu Teledu fel y cytunwyd â'r BBC ac mae'n cwmpasu erlyn y troseddau canlynol o fewn y Deyrnas Unedig neu fel sy'n gymwys yn Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel:

*2.1* *Gosod neu ddefnyddio derbynnydd teledu heb drwydded yn groes i Adran 363(2) a (4) Deddf Cyfathrebu 2003*.

*2.2* *Meddu neu reoli derbynnydd teledu a bwriadu ei osod neu ei ddefnyddio heb drwydded yn groes i Adran 363(3)(a) a (4) Deddf Cyfathrebu 2003.*

*2.3* *Meddu neu reoli derbynnydd teledu, gan wybod neu fod ag achos rhesymol dros gredu bod person arall wedi bwriadu gosod neu ddefnyddio'r derbynnydd heb drwydded yn groes i Adran 363(3)(b) a (4) Deddf Cyfathrebu 2003.*

*2.4* *Mynd ati'n fwriadol i rwystro cyflawni'r Warant Chwilio a gyflwynir dan Adran 366 Deddf Cyfathrebu 2003, yn groes i Adran 366(8)(a) a (9) Deddf Cyfathrebu 2003.*

*2.5* *Methu neu wrthod, heb achos rhesymol, rhoi cymorth yr oedd y person dan ddyletswydd i'w roi i berson a awdurdodwyd i gyflawni Gwarant Chwilio a ganiatawyd dan Adran 366 Deddf Cyfathrebu 2003 gan Lys Ynadon, yn groes i Adran 366(8)(b) a (9) Deddf Cyfathrebu 2003.*

[1] Ble defnyddir y term 'Person' drwy gydol y polisi hwn mae'n cynnwys busnes sy'n gweithredu ar unrhyw ffurf.

## 3 Cyfrifoldeb

3.1 Mae'r BBC yn gyfrifol am orfodi talu ffi'r drwydded yn y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Mae Capita dan gytundeb i ymchwilio ac erlyn y troseddau y cyfeirir atynt yn adran 2 uchod, o fewn yr awdurdodaethau hyn, yn unol â'r polisi erlyn hwn.

3.2 Cyfrifoldeb Tîm Gorfodi Maes CAPITA yw ymchwilio a yw trosedd wedi'i gyflawni o bosib, casglu tystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw droseddau a amheuir a chyflwyno'r dystiolaeth honno i'r erlynydd.

3.3 Yr erlynydd sy'n gyfrifol am y penderfyniad i erlyn neu adrodd wrth drydydd person am erlyniad o fewn CAPITA. Bydd yr erlynydd yn gwneud penderfyniadau erlyn/adrodd a gall gynnal erlyniadau. Rhaid i'r erlynydd fod yn un neu fwy o'r canlynol hefyd:

a) aelod o'r tîm cefnogi gweithredol. h.y. gweinyddwr y llys neu reolwr y tîm cefnogi gweithredol sy'n ymwneud ag apeliadau Llys y Goron, gwarantau chwilio, canfod, ymchwiliadau proffil uchel a masnachol,

b) aelod o'r tîm erlyn. h.y. gweinyddwr y llys, rhywun sy'n trin achosion neu reolwr erlyn sy'n ymwneud ag ymchwilio i ddefnydd didrwydded mewn eiddo domestig,

c) cyflwynydd llys neu reolwr cyflwynydd llys a all erlyn achosion Trwyddedu Teledu yn Llysoedd Ynadon Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu

d) aelod o'r tîm cyfreithiol a all ymwneud ag unrhyw rai o'r gweithgareddau uchod.

3.4 Ni all unrhyw unigolyn erlyn na gwneud penderfyniad ynghylch erlyn achos ai peidio lle maent ynghlwm wrth gasglu'r dystiolaeth neu lle maent yn adnabod y person dan sylw yn bersonol.

## 4 Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

4.1 Mae'r egwyddorion sylfaenol o fewn y polisi hwn yn seiliedig ar y rhai a geir o fewn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron ond rhaid ystyried gofynion tystiolaethol pob awdurdodaeth wrth wneud y penderfyniad i erlyn neu adrodd wrth yr awdurdodau.

4.2 Rhaid i erlynwyr fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i safbwyntiau personol am darddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, safbwyntiau gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd person sy dan ystyriaeth i'w erlyn neu dyst ddylanwadu ar eu penderfyniad ond rhaid gweithredu bob amser er budd cyfiawnder ac nid er mwyn sicrhau euogfarn yn unig.

4.3 Rhaid i erlynwyr weithredu egwyddorion y Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol yn unol â Deddf Iawnderau Dynol 1998 ar bob cam mewn achos a chydymffurfio â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol sydd mewn grym.

## 5 Y Penderfyniad i Erlyn

5.1 Bydd y meini prawf a ddisgrifir isod yn gymwys i benderfyniad Trwyddedu Teledu ynghylch a ddylid erlyn achos yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu Ynys Manaw. Bydd y meini prawf yr un mor gymwys i'r penderfyniad i gyfeirio achos at y Procuradur Ffisgal yn yr Alban neu'r Heddlu yn Ynysoedd y Sianel, a fydd yn penderfynu wedyn a ddylid erlyn ai peidio.

5.2 Bydd pob achos yn cael ei drin yn ôl ei deilyndod ei hun

5.3 Y mae dau gam yn y penderfyniad i erlyn.

5.3.1 Y cam cyntaf yw'r prawf tystiolaethol (a bennir ym mharagraff 6 isod). Os na fydd yr achos yn pasio'r prawf tystiolaethol ni all fynd ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol ydyw.

5.3.2 Yr ail gam yw prawf budd y cyhoedd (a bennir ym mharagraff 7 isod). Os bydd yr achos yn pasio'r prawf tystiolaethol, rhaid i'r erlynydd benderfynu a oes angen erlyniad er budd y cyhoedd.

5.4 Ni fydd erlynydd yn dechrau neu'n parhau ag erlyniad oni bai fod yr achos wedi pasio'r ddau brawf a bydd yn mynd ati'n gyflym a heb oedi i atal achosion nad ydynt yn bodloni'r prawf tystiolaethol neu lle nad yw budd y cyhoedd yn amlwg yn galw am erlyniad.

5.5 Ni ddylai erlynwyr ddechrau neu barhau ag erlyniad y byddai'r llys yn ei ystyried yn ormesol neu'n annheg a bydd yn ymgymryd â phroses adolygu barhaus gan roi ystyriaeth i unrhyw newid mewn amgylchiadau wrth i'r achos ddatblygu.

5.6 Y person i'w ystyried ar gyfer ei erlyn yn achos safle preswyl yw oedolyn priodol sy'n preswylio yn y cyfeiriad, neu'r landlord neu berson arall sy'n gyfrifol am drwyddedu derbynnydd teledu yn y safle.

5.7 Yn achos cyfeiriadau annomestig fe all y person i'w ystyried ar gyfer ei erlyn fod yn sefydliad neu'n gorff corfforaethol, yn uwch swyddog neu'n gyfarwyddwr ar gorff corfforaethol, neu'n berchennog, partner neu'n ymddiriedolwr corff anghorfforedig.

## 6 Y Prawf Tystiolaethol

6.1 Rhaid i'r erlynydd fod yn fodlon fod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn y person. Mae hwn yn brawf gwrthrychol ar sail asesiad yr erlynydd o'r dystiolaeth ac unrhyw wybodaeth y gellid ei gyflwyno gan y person.

6.1.1 Yng Nghymru a Lloegr mae hyn yn golygu fod ynad neu fainc o ynadon neu farnwr gwrthrychol, diduedd a rhesymol, wedi'u cyfeirio'n briodol ac yn gweithredu'n unol â'r gyfraith yn fwy tebygol na pheidio o euogfarnu'r diffynnydd o'r cyhuddiad honedig.

6.1.2 Yng Ngogledd Iwerddon mae hyn yn golygu y gellir disgwyl yn rhesymol i dribiwnlys diduedd wedi'i gyfeirio'n briodol yn unol â'r gyfraith, ganfod fod achos wedi'i brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol. Bydd y prawf hwn yn cael

ei gymhwyso hefyd i'r penderfyniad i erlyn mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir yn Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel.

6.2 Yn yr Alban cyn y gellir cychwyn achos bydd angen i'r Procuradur Ffisgal fod yn fodlon fod digon o dystiolaeth dderbyniol i gyfiawnhau dechrau achos. At ei gilydd, er mwyn cael digon o dystiolaeth rhaid cael cadarnhad, sef tystiolaeth o ddwy ffynhonnell ar wahân o leiaf er mwyn sefydlu ffeithiau hanfodol yr achos, h.y. fod y trosedd wedi'i gyflawni; ac mai'r sawl a gyhuddir oedd y troseddwr. Rhaid i'r erlynydd fod yn fodlon y gellir profi'r materion hyn y tu hwnt i amheuaeth resymol.

6.3 Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i'r erlynydd ystyried derbynioldeb, dibynadwyedd a hygrededd y dystiolaeth.

## 7 Prawf Budd y Cyhoedd

7.1 Os bydd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyniad rhaid i'r erlynydd fynd ymlaen i ystyried a yw erlyniad yn ofynnol er budd y cyhoedd. Fel arfer bydd erlyniad yn digwydd oni bai fod yr erlynydd yn fodlon bod ffactorau budd y cyhoedd yn gogwyddo yn erbyn erlyn sy'n drech na'r rhai sy'n gogwyddo o blaid. Mewn rhai achosion gall yr erlynydd fod yn fodlon y gellir gwasanaethu budd y cyhoedd yn briodol trwy roi cynnig i'r troseddwr gael ymdrin â'r mater trwy gyfrwng penderfyniad y tu allan i'r llys yn hytrach na dwyn erlyniad (gweler adran 8).

7.2 Wrth benderfynu ar fudd y cyhoedd, dylai'r erlynydd ystyried:

- bod y sawl sy'n euog o'r trosedd yn agored i gael dirwy heb fod dros lefel 3 ar y raddfa safonol (ac eithrio'r trosedd o lesteirio gwarant chwilio y gellir gosod dirwy heb fod dros lefel 5 ar ei gyfer).
- euogrwydd y sawl sy'n cael ei amau o gyflawni'r trosedd,
- y niwed a achoswyd,
- yr effaith ehangach ar dalwyr ffi'r drwydded, a
- chymesuredd yr erlyniad/penderfyniad arfaethedig,

er mwyn nodi a phennu'r ffactorau budd y cyhoedd perthnasol.

7.3 Rhaid ystyried pob achos ar sail ei ffeithiau a'i deilyngdod ei hun a rhaid cofnodi penderfyniadau. Mae'n eithaf posib y gall un ffactor budd y cyhoedd yn unig fod yn drech na nifer o ffactorau sy'n gogwyddo i'r cyfeiriad arall. Rhaid i'r erlynydd benderfynu ar bwysigrwydd pob ffactor yn amgylchiadau pob achos a mynd ymlaen i wneud asesiad cyffredinol o fudd y cyhoedd. Er y gall fod ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn fe ddylai'r erlynydd ystyried serch hynny a ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad ac a ddylai'r ffactorau hynny fynd gerbron y llys i'w hystyried wrth gyhoeddi dedfryd.

7.3 Mae'r rhestr ganlynol o ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn cael ei darparu i gynorthwyo'r erlynydd i fynd i'r afael â'r cwestiynau a godir yn 7.2 uchod. Mae'n arbennig o berthnasol i achosion Trwyddedu Teledu ond nid yw'n hollgynhwysfawr a'i bwriad yw arwain yn hytrach na chyfyngu ar yr erlynydd wrth gynnal eu hasesiad. Bydd y pwys y dylid ei roi i bob cwestiwn, a'r ffactorau a nodir, yn amrywio yn ôl ffeithiau a theilyngdod pob achos.

7.3.1 Rhai ffactorau budd y cyhoedd cyffredin sy'n gogwyddo o blaid erlyn:

(a) Mae'r person wedi'i rybuddio neu wedi'i erlyn yn flaenorol am drosedd y cyfeirir ato o fewn paragraff 2 y polisi hwn.

(b) Bu'n rhaid cael gwarant chwilio i gasglu tystiolaeth.

(c) Mae derbynnydd teledu lliw yn cael ei ddefnyddio pan fo trwydded du a gwyn yn cael ei dal.

(d) Mae tystiolaeth i awgrymu bod y person wedi mynd ati'n fwriadol i beidio â gwneud taliadau am drwydded drwy randaliadau.

(e) Mae derbynnydd teledu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy[2] pan fydd Trwyddedu Teledu wedi'i hysbysu'n flaenorol gan y person nad oes angen trwydded yn y safle.

(f) Mae'r person wedi hysbysu Trwyddedu Teledu yn rhagweithiol neu wedi datgan yn gyhoeddus eu bod wrthi neu'n bwriadu defnyddio offer derbyn teledu ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy neu maent wedi annog eraill yn gyhoeddus i wneud hynny.

(g) Y mae angen rhwystro troseddu pellach

(h) Y mae lefel uwch o euogrwydd tuag at y troseddwr sy'n cael ei amau.

7.3.2 Rhai ffactorau budd y cyhoedd cyffredin sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn:

(a) Fe brynwyd trwydded yn amserol ac wedi'i dyddio'n briodol yn dilyn cyfweliad.

(b) Mae'r llys yn debygol o osod cosb enwol.

(c) Cyflawnwyd y trosedd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth wirioneddol.

(d) Mae'r person dan 18 mlwydd oed.

(e) Roedd y person adeg y trosedd neu mae bellach

(i) yn dioddef afiechyd meddyliol neu gorfforol sylweddol, neu'n
(ii) cael ei ystyried yn agored i niwed oherwydd eu hamgylchiadau personol (a allai gynnwys afiechyd corfforol neu feddyliol, anawsterau dysgu, gelyniaeth neu gamdriniaeth domestig, neu galedi ariannol eithriadol a difrifol)
oni bai fod gwir bosibilrwydd y gallai'r trosedd ddigwydd eto.

(f) Mae'r person yn gymwys i gael trwydded deledu gonsesiwn.

(g) Mae'r person yn ymwelydd dilys.

(h) Mae tystiolaeth i ddangos mai'r landlord sy'n gyfriofol am y derbynnydd teledu neu am y drwydded deledu yn y safle.

(i) Gellir ymdrin â'r trosedd yn briodol trwy ddefnyddio penderfyniad y tu allan i'r llys.

---

[2] Fe geir gwybodaeth ar yr hyn sy'n cynrychioli gweithgarwch trwyddedadwy ar wefan Trwyddedu Teledu yn http://www.tvlicensing.co.uk/check-if-you-need-one ac fe'i diffinnir yn y Polisi ar Ddim Angen Trwydded a gyhoeddir yn http://www.tvlicensing.co.uk/about/foi-policies-AB17

## 8 Penderfyniad y tu allan i'r Llys

8.1 Os oes digon o dystiolaeth, a'i bod er budd y cyhoedd gwneud hynny, yna gellir awdurdodi achos i gael ei erlyn. Fodd bynnag, gyda golwg ar holl amgylchiadau'r achos, lle bo'n ymateb priodol a chymesur, yn y lle cyntaf gall erlynydd gynnig rhybudd (ar yr amod bod ffi'r drwydded yn cael ei thalu) fel dewis arall heblaw erlyn.

8.2 Ni fydd rhybudd yn cael ei gynnig fel arfer os bydd unrhyw rai o ffactorau budd y cyhoedd o blaid erlyn yn gymwys (gweler adran 7.3.1)

8.3 Os cynigir rhybudd, bydd hyn yn cael ei gadarnhau ar bapur a gall y person osgoi erlyniad trwy gydymffurfio ag un o'r amodau canlynol:

a) Talu ffi'r drwydded yn llawn, NEU

b) Drefnu cynllun talu a thalu'r isafsymiau a ddangosir yng yng Nghôd Erlyn Trwyddedu Teledu[3] o fewn y cyfnodau amser a nodir.

8.4 Os cynigir rhybudd ac na fydd yr amodau'n cael eu bodloni yna bydd yr erlynydd yn ailystyried budd y cyhoedd a bydd yr erlyniad yn symud ymlaen i'r cam nesaf a'r unig ffordd i berson osgoi erlyniad yw talu am drwydded yn llawn o fewn y cyfnod o amser canlynol:

a) Os codir gwŷs, rhaid gwneud taliad o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn i'r achos ddod i'r llys.

b) Os yw Hysbysiad Gweithdrefn Cyfiawnder Unigol wedi'i roi, rhaid talu o fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad.

8.5 Sylwch yn yr Alban ac Ynysoedd y Sianel fod y penderfyniad i fwrw ymlaen ag erlyniad ai peidio, unwaith y bydd mater wedi'i hysbysu gan Drwyddedu Teledu, yn nwylo'r awdurdod erlyn ac nid yn nwylo Trwyddedu Teledu.

Nodiadau

(i) Yn sefyllfaoedd 7.3.2 (h) – (i) bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu gyda golwg ar erlyn y person sy'n gyfrifol am ddarparu derbynnydd teledu a/neu'r drwydded.

(ii) Cyn ystyried unrhyw weithred erlyn, rhaid i'r Erlynydd fod yn fodlon, bob amser, fod diffynyddion wedi cael digon o rybudd a chyfle ymlaen llaw i ymateb i unrhyw gyfathrebiadau.

[3] Mae Côd Erlyn Trwyddedu Teledu ar gael ar wefan Trwyddedu Teledu yn http://www.tvlicensing.co.uk/about/foi-policies-AB17